



Mynediad ac Adloniant

Rhan ganolog yr AHNE, gan gynnwys Moel Famau a Pharc Gwledig Lggerheads, yw'r brysraf o lawer, o ran gweithgareddau ymwelwyr. Mae'r ddau Barc Gwledig yn atyniadau i ymwelwyr, y ddau yn denu dros 120,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Mae'r rhan ogleddol o Dreimeirchion i Bestatyn yn llai prysur, ond yn dal i fod yn boblogaidd gyda cherddwyr. Mae'r ardal i'r de o Lanarmon yn dawelach, er bod Graigfechan hefyd yn boblogaidd gyda cherddwyr, ac mae'r darn deheuol o gwmpas bwlch Nant y Garth yn arbennig o dawel gydag ond ychydig o lwybrau cerdded a dim cyfleusterau i ymwelwyr.

Ymwelir â'r AHNE gan amrywiaeth fawr o bobl: trigolion lleol yn yn mynd â chwn am dro neu allan efo'r teulu, ymwelwyr dydd, yn enwedig o Lannau Merswy a Sir Gaer, ynghyd â'r ardal leol. Nid yw'n brif gyrchfan gwyliau, gyda'r rhan fwyaf o dwristiaid yn teithio trwy'r AHNE i fynd ar wyliau ymhellach i'r gorllewin ym mynyddoedd Eryri neu ar yr arfordir, yn hytrach nag aros yn yr AHNE. Mae hyn yn gadael yr AHNE yn gymharol heddychlon, ond mae'r economi yn ddi-os yn dioddef o ran colli refeniw. Mae posibilrwydd ar gyfer annog mwy o ymwelwyr i ddefnyddio'r ardal ar gyfer gwyliau hirach a phenwythnosau.

Yn yr ardal graidd o amgylch Moel Famau a Loggerheads mae tagfeydd wedi dod yn broblem gynyddol ar adegau prysur. Mae lle i barcio yn brin a lonydd mynediad yn gul. Gellir cael tagfeydd drwg yn ystod yr haf ar adegau prysur, a phan fo eira yn syrthio yn y gaeaf. Datblygwyd nifer o flaengareddau cludiant cyhoeddus i ddelio gyda hyn ar y cyd gydag adrannau Cludiant Sir Ddinbych a Sir y Fflint, gan gynnwys gwasanaeth bws hamdden Ranger Bryniau Clwyd sy'n rhedeg ar y Sul yn yr Haf.



Ar wahân i'r Parciau Gwledig, mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn meddu ar a rheoli 6 Safle Cefn Gwlad yn yr AHNE. Mae'r rhain yn bwyntiau ffocws ar gyfer mynediad, er bod rhai yn fwy poblogaidd nag eraill. Mae posibilrwydd i wella mynediad o amgylch y safleoedd hyn a'u cysylltu yn gryfach â'r rhwydwaith hawliau tramwy ehangach a chymunedau o gwmpas a mannau eraill o ddiddordeb.

Mae hyn yn arbennig o wir am yr ardal o gwmpas Loggerheads, Moel Famau, Moel Findeg a Maesafn. Mae'r safleoedd hyn o fewn radiws 1.5 milltir i'w gilydd ac yn ffurfio both gweithgaredd ymwelwyr ym Mryniau Clwyd.

Mae'r ardal graidd hon yn boblogaidd ar gyfer amrywiol weithgareddau, gan gynnwys teuluoedd yn ymweld, mynd â chwn am dro, beicio mynydd, paragleidio, marchogaeth a dringo. Mae'n ardal boblogaidd iawn i feicio oddi ar y ffordd, gyda phobl yn teithio pellteroedd sylweddol. Mewn ymateb i'r galw cynyddol, datblygwyd Project Beicio Oddi ar y Ffordd Bryniau Clwyd a phenodwyd swyddog project yn y gwanwyn 2003 i gydlyn, cyflwyno a gweithredu'r amrywiol agweddau ymarferol.

Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau

Mae Parciau Gwledig Loggerheads a Moel Famau yn gweithredu fel pwyntiau ffocws i ymwelwyr â'r AHNE.

Parc Gwledig Loggerheads

Mae Parc Gwledig Loggerheads yn barc 80 erw o gwmpas dyffryn coediog a chreigiau carreg galch gyda golygfeydd drosodd i Foel Famau. Mae'r parc yn gyfoethog o ran bywyd gwylt a phlanhigion.





Mae rhan wedi ei dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd planhigion prin calchaid a choedwig onnen yn bennaf. Mae treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog hefyd gydag olion diwydiant plwm. Mae cyfleusterau da i ymwelwyr gan gynnwys Canolfan Cefn Gwlad sydd ag arddangosfeydd dehongli, gwybodaeth ac sy'n gwerthu mapiau/llyfrau/rhoddion, lle mae caffi, toiledau, gerddi te ar gyfer picnic a llwybrau gyda mynegbyst.

Mae'n gweithredu fel 'porth' i'r AHNE a'r wlad o gwmpas, gyda'r Ganolfan Cefn Gwlad yn ganolbwynt i ddarparu gwybodaeth nid yn unig am yr ardal o gwmpas ond safleoedd cefn gwlad Sir Ddinbych a chyfleusterau twristiaeth yn gyffredinol ledled y sir.

Mae Loggerheads yn safle poblogaidd dros ben yn denu mwy na 120,000 ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r mwyafrif yn grwpiau teulu gyda phlant dan 12 oed ond mae nifer arwyddocaol o bobl hyn hefyd ac unigolion yn mynd â chwn am dro. Mae'n boblogaidd hefyd gyda cherddwyr yn

defnyddio'r safle fel man cychwyn ar gyfer taith hirach. Mae'r mwyafrif yn ymwelwyr sy'n dychwelyd, nid yn unig pobl leol gyda chwn, ond hefyd teuluoedd yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae rhai yn teithio o bell i Loggerheads. O'r rhai a holwyd yn ystod yr haf 2002, roedd 30% yn dod o Gilgwrri a Glannau Merswy, ac 17% o Gaer a Sir Gaer. Daeth cyfran lai o'r ardal leol, gyda 27% yn dod o Sir y Fflint ac 11% o Sir Ddinbych.



Mae cysylltiad maith rhwng Loggerheads a Glannau Merswy, ers pan gychwynnodd Crossville redeg gwasanaeth ar y Sul o Lerpwl i Loggerheads yn y 1920au. At hyn, arhosodd cenedlaethau o bobl ifanc yn eu harddegau o Lerpwl yng Ngholomendy gerllaw, ar dripiâu ysgol a chrwydro Loggerheads a Moel Famau. Mae llawer yn dychwelyd nawr eu bod yn oedolion, gan ddod â'u plant eu hunain.



Parc Gwledig Moel Famau

Mae Parc Gwledig Moel Famau yn fwy na 2000 erw o dirwedd ucheldirol, yn cynnwys gweundir grugog, sy'n troi yn borfa lasach ar y llethrau is. Mae'n gynefin bwysig i lawer o famaliaid ac adar, gan gynnwys adar ysglyfaethus. Mae olion Twr y Jiwbil i'w gweld ar ben Moel Famau, man uchaf y Parc ar 1818tr (544m). Mae darn 7 milltir o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn rhedeg trwy'r Parc, ar hyn y grib. Mae olion tair bryngaer i'w gweld ar ben Moel Fenlli, Moel y Gaer a Moel Arthur. Y darn canol o gwmpas Moel Famau sy'n cael ei drafod yma.

Mae Moel Famau yn cysylltu gyda Choed Moel Famau, coedwig ym meddiant ac a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n ffinio'r parc gwledig, ac mae ymwelwyr yn aml yn defnyddio'r ddau safle gyda'i gilydd. Nid yw'r goedwig yn rhan o'r parc gwledig, ond o ran ymwelwyr, rheolir y ddau gan bartneriaeth wardeniaid i osgoi dryswch a mwyafrif manteision i ymwelwyr.

Mae nifer fawr o ymwelwyr (mwy na 100 000), yn enwedig yn yr haf, ond mae'n boblogaidd gyda cherddwyr trwy gydol y flwyddyn. Grwpiau teuluol a cherddwyr yw'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr, ond hefyd pobl hyn yn mwynhau'r olygfa.

Fel Loggerheads, mae'n denu ymwelwyr o bellter. Canfu ymchwil gan Fenter Coedwigaeth yn 2002 bod dros 50% o ymwelwyr wedi teithio dros 15 milltir i Foel Famau gyda 27% yn teithio rhwng 15-25 milltir. Roedd rhai wedi dod cyn belled â De Swydd Gaerhirfryn, Swydd Derby a Swydd Caerlyr.

Mae canran ymwelwyr sy'n dychwelyd yn uchel iawn, roedd 90% o'r rhai a holwyd ym man gwyllo Moel Famau wedi bod o'r blaen ac 81% yng Nghoed Moel Famau.

Ym maes parcio Moel Famau, mae byrddau dehongli, llwybrau cerdded, rhai llwybrau wedi eu haddasu ar gyfer cadeiriau olwyn, mannau picnic ac mae toiledau yng Nghoed Moel Famau.

Mae rheolaeth coedlannau nawr yn ceisio cynyddu gwerth cadwraeth a hamdden coedlannau ymhellach fyth gyda chynhyrchu pren yn llai pwysig. Mae rhaglen uchelgeisiol 150 blynedd yn anelu at drawsnewid y rhan fwyaf o'r goedlan yn goed brasddail cynhenid gan adael y gweddill fel coed conifer safon uchel.

Mae Moel Famau yn lle delfrydol i ddehongli gweundir grugog a bryngeiri gan ei fod yn denu cymaint o ymwelwyr. Bydd y project Grug a'r Caerau yn darparu peiriwanwaith delfrydol ar gyfer gweithredu hyn.

Amcanion

- PGA1** Gwella mynediad yn ardal Loggerheads a Moel Famau trwy uwchraddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy sy'n cysylltu'r safleoedd hyn a chefn gwlad yn ehangach a hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd mynediad trwy ddarparu gwybodaeth erbyn 2005.
- PGA2** Parhau i ddatblygu cysylltiadau cludiant cyhoeddus rhwng y ddau safle a chyda chanolfannau poblogaeth eraill er mwyn lleihau tagfeydd traffig.
- PGA3** Cyhoeddi cynllun rheoli cyfun ar gyfer Loggerheads, Moel Famau a Choedwig Moel Famau erbyn 2006.
- PGA4** Defnyddio Project Grug a'r Caerau i adnabod ac adfer achosion erydiad erbyn 2006 a chymryd camau trwy fabwysiadu project Grug a'r Caerau.
- PGA5** Datblygu rhaglen ddehongli yn ymwneud â Grug a'r Caerau ardal Erbyn 2007.
- PGA6** Targedu gwybodaeth yn ymwneud â Chôd Cefn Gwlad ar y Parciau Gwledig a darparu gwybodaeth yn ymwneud â gwaith cadwraeth

Camau

- PGC1** Cychwyn project gwella mynediad rhwng Loggerheads a Moel Famau trwy uwchraddio hawliau tramwy a darparu gwybodaeth erbyn 2005.
- PGC2** Cynhyrchu cynllun rheoli cyfun ar gyfer Loggerheads, Moel Famau a Choedwig Moel Famau ar y cyd gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru a phartneriaid eraill erbyn 2006.
- PGC3** Cwblhau un project rheoli erydiad ym mhob safle bob blwyddyn.
- PGC4** Darparu cyllid trwy'r Gronfa Datblygu Strategol i ddatblygu gwasanaethau bws Ranger Bryniau Clwyd a Chysylltiad Loggerheads i leihau tagfeydd traffig.
- PGC5** Darparu gwybodaeth ar y safle yn ymwneud â Chôd Ymarfer yr RSPB ar Y Grugiar Ddu ym Moel Famau ar adegau sensitif trwy gydol oes y cynllun
- PGC6** Darparu gwybodaeth ar y safle yn ymwneud â gwaith cadwraeth coed ym Mharc Gwledig Loggerheads.
- PGC7** Ail-sefydlu Ymgyrch Aflonyddu ar Ddefaid adeg wyna erbyn 2005 a thargedu Parc Gwledig Moel Famau.





Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa

Mae Llwybr Clawdd Offa yn mynd ar hyd bron y cyfan o Fryniau Clwyd, o Brestatyn yn y Gogledd i Landegla yn y De. Mae hyn yn gwneud y brynau yn arbennig o hygyrch, gan gysylltu brig y rhan fwyaf yn y gadwyn o fryniau sy'n ffurfio'r grib. Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn gyfrifol am reoli'r Llwybr, cynnal a chadw a'i ddatblygu gyda chymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Polisi CCGC ar gyfer Llwybr Clawdd Offa yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "reoli'r Llwybr i'r safonau uchaf, gan adlewyrchu statws Llwybrau Cenedlaethol fel 'flagship' y system Hawliau Tramwy."

Mae'r Llwybr yn ffynhonnell incwm bwysig i nifer o fusnesau lleol gan gynnwys darparwyr llety, siopau a thafarndai mewn nifer o leoliadau allweddol. Mae hyn yn arbennig o wir o'r ardal o gwmpas Bodfari, Rhualt a Phrestatyn.



Amcanion

- LLCOA1** Sicrhau bod yr holl ddodrefn yn bodloni safonau uchel erbyn 2007 a lle'n briodol bod y Llwybr mor hygyrch ag y bo modd i holl ddefnyddwyr.
- LLCOA2** Canfod i ba raddau y mae busnesau lleol yn elwa o'r Llwybr erbyn 2005 a datblygu rhaglen a fydd yn cysylltu cymunedau a busnesau i'r Llwybr.
- LLCOA3** Monitro erydiad mewn mannau allweddol, yn enwedig bryngeiri a datblygu rhaglen o fesurau a fydd yn lleihau effaith y Llwybr ar y dirwedd.
- LLCOA4** Cryfhau cysylltiadau rhwng y Llwybr ac aneddiadau gerllaw a mannau o ddiddordeb gan ddefnyddio'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a Gwasanaeth Bws Ranger Bryniau Clwyd.
- LLCOA5** Monitro niferoedd ymwelwyr a boddhad ymwelwyr ar hyd y Llwybr trwy osod offer parhaol cyfrif pobl a holiadur uniongyrchol bob dwy flynedd.

Camau

- LLCOC1** Datblygu rhaglen barhaol o adnewyddu dodrefn, adnewyddu pum camfa a phum mynegbost bob blwyddyn.
- LLCOC2** Ymgymryd ag asesiad o'r erydiad ar hyd y Llwybr a chyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer gwaith adfer erbyn 2007. Ymgymryd ag un project bob blwyddyn.
- LLCOC3** Cynnal o leiaf tri darn offer cyfrif pobl ar y Llwybr a'u harolygu bob dwy flynedd.
- LLCOC4** Holiaduron ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol bob dwy flynedd
- LLCOC5** Ymgymryd ag un project bob blwyddyn a fydd yn gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cysylltu'r Llwybr gydag aneddiadau, busnesau a mannau eraill o ddiddordeb.

A vertical collage of five photographs. From top to bottom: a young child wearing a yellow hat and holding a piece of paper; the front of a white bus with 'RUTHIN' written on its side; a person in a blue jacket and pink hat working on the ground; a man in a green jacket and flat cap standing in a field; and a man in a blue sweater working with a pile of sticks and branches.





Rhwydwaith Hawliau Tramwy

Mae Bryniau Clwyd yn cael eu gwasanaethu yn dda iawn gan y rhwydwaith hawliau tramwy a dim ond ychydig o fannau sydd lle na all y cyhoedd fynd. Mae'r rhwydwaith yn darparu cyfle da nid yn unig i gael mynediad ar droed ond hefyd beicio a marchogaeth.

Er bod y Parciau Gwledig, Llwybr Clawdd Offa a safleoedd eraill y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn darparu canolbwynt i gael mynediad, mae ardaloedd eraill hefyd yn boblogaidd iawn, yn enwedig o amgylch Tremeirchion, Llanarmon yn lâl a Graigfechan.

Mae posibilrwydd i danlinellu rhai o'r llwybrau allweddol yn cysylltu prif safleoedd yn yr AHNE megis Bryniau Prestatyn a Choed Bell a sefydlu cyfres o deithiau a fyddai'n annog mynediad i a chodi ymwybyddiaeth am y safleoedd eraill hyn.

Mae llawer o ymwelwyr gyda Moel Famau a Loggerheads nad ydynt yn gerddwyr traddodiadol ac efallai nad ydynt yn dda am ddarllen mapiau neu eisiau prynu map. Mae'r ymwelwyr hyn yn annhebygol o grwydro y tu allan i ardaloedd cyfarwydd oni fo llwybrau wedi eu marcio yn glir ac yn hawdd eu dilyn. Byddai darparu 'parth cysur' o gwmpas Loggerheads a Moel Famau lle cynhelir y llwybrau i safon uchel iawn a lle hybryd llwybrau byr trwy gyfrwng llenyddiaeth weledol syml ac arwyddion clir yn annog yr ymwelwyr hyn i grwydro yn ehangach.

Mae staff hawliau tramwy yn paratoui 'Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy' sydd i'w cyhoeddi erbyn diwedd 2007. Bydd staff AHNE yn cysylltu gyda Swyddogion Hawliau Tramwy i sicrhau bod hawliau tramwy yn yr AHNE yn cael eu blaenoriaethu a'u cynnal i'r safonau uchaf ac yn cael eu hybu yn effeithiol.



Amcanion

- HTA1** Sefydlu rhaglen gwelliannau hawliau tramwy mewn mannau allweddol a fydd yn sicrhau cysylltiadau cryfion gyda Safleoedd Cefn Gwlad, pentrefi a mannau eraill o ddiddordeb a fydd yn cynyddu cyfleoedd yn y rhwydwaith.
- HTA2** Darparu mwy o gyfle i feicio oddi ar y ffordd a marchogaeth yn yr AHNE a hyrwyddo'r cyfleoedd hyn.
- HTA3** Gweithio gyda Ffora Mynediad Lleol ar gyfer Sir y Fflint a Sir Ddinbych i sicrhau partneriaeth gyda defnyddwyr mynediad a thirfeddianwyr.
- HTA4** Darparu cefnogaeth i'r gymuned amaethyddol wrth ddelio gyda materion mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae pwysau.

Camau

- HTC1** Sicrhau bod holl hawliau tramwy yn y safleoedd sydd ym meddiant y Gwasanaeth Cefn Gwlad a choedwigoedd Menter Coedwigaeth yn agored erbyn 2005.
- HTC2** Sicrhau bod holl hawliau tramwy ar ffermydd ym meddiant y Sir yn agored erbyn 2006.
- HTC3** Ymgymryd â gwelliannau hawliau tramwy i lwybrau yn cysylltu Moel Famau, Loggerheads, Maeshafn a Dyffryn Alun erbyn 2006 a hybu'r ardal hon fel canolbwynt ar gyfer taith gerdded i'r teulu.

- HTC4** Ymestyn y project beicio mynydd beiciobryniau clwyd.com erbyn 2004 er mwyn cael gwelliannau yn y maes i sicrhau safon uchel o fynegbyst a rheoli erydiad.
- HTC5** Sefydlu cynrychiolaeth Ffora Mynediad Lleol Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol erbyn 2004.
- HTC6** Ymgymryd ag un project gwella hawliau tramwy yn yr AHNE bob blwyddyn gyda'r nod o wella hygyrchedd i ardaloedd poblogaidd.

Cynlluniau Cysylltiedig

Dewis a Dethol – Strategaeth Diwylliant a Hamdden Sir Ddinbych
 Strategaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
 Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych
 Mynediad i'r Wlad Agored yn AHNE Bryniau Clwyd
 Strategaeth Ddehongli Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
 Strategaeth Cerdded a Beicio - LICC





DIWYLLIANT A PHOBL

Yr Amgylchfyd Adeiliedig

Mae datblygiad aneddiadau dynol yn ardal Bryniau Clwyd yn mynd yn ôl lawer o ganrifoedd. Cychwynnodd y rhan fwyaf o aneddiadau modern o gwmpas yr eglwys leol, y gof, ffynnon neu wasanaethau eraill, gyda thai yn cael eu hadeiladu gan ac ar gyfer pobl leol a weithiai o fewn ychydig filltiroedd i'w cartref. Heddiw oherwydd natur bywyd modern, mae llawer o dai yn cael eu meddiannu gan gymudwyr sy'n teithio ar gyfartaledd rhwng 10 ac 20 milltir i'r gwaith mewn car.

Mae aneddiadau yn yr AHNE wedi datblygu mewn patrymau penodol, yn bennaf yn gnewyllol neu'n llinellol. Mae'r rhesymau dros y patrymau yn hanesyddol ac yn ddaearyddol. Mae Llanarmon yn lâl yn nodweddiadol o anheddiad cnewyllol, wedi ei adeiladu o gwmpas yr eglwys, tra bo Melin y Wern yn llinellol, wedi ei adeiladu ar hyd yr A541.

Roedd gan gymunedau 'ganolbwynt' a man cyfarfod yn y gorffennol, megis yr ysgol, eglwys, ty tafarn neu siop leol. Mae newidiadau mewn patrymau siopa, fodd bynnag, wedi arwain at golli llawer o'r cyfleusterau lleol. Mae'n wers nodi mai dim ond tair siop bentref sydd yn yr AHNE.

O'r pentrefi yn y Bryniau, mae craidd hanesyddol deg o'r rhain wedi eu dynodi yn Ardaloedd Cadwraeth, wedi eu diffinio yn 'ardaloedd o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig, cymeriad neu olwg y rhain y mae'n ddymunol eu gwarchod neu eu gwella.'

Nid yw datblygiad gwasgaredig iawn yn nodweddiadol o'r Bryniau. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau pellennig yn gysylltiedig gydag amaethyddiaeth a gallant ychwanegu cymeriad i ardal lle maent yn ffitio'n dda gyda'r dirwedd, yn enwedig lle maent o arwyddocâd hanesyddol.

Fel rheol, cafwyd deunydd adeiladu yn lleol ac mae hyn wedi rhoi cymeriad penodol i adeiladau ac aneddiadau. Er enghraifft mae nifer o bentrefi lle mae carreg galch yn dominyddu. Mae'n bwysig felly bod adeiladau newydd yn ffitio i mewn i'r dirwedd ac yn cael eu hadeiladu o ddeunydd sy'n gyson gydag adeiladau traddodiadol eraill.

Amcanion

- AAA1** Sicrhau bod datblygiad newydd yn mabwysiadu'r safon ddylunio uchaf, deunyddiau a thirwedd i sicrhau ei fod yn cydynd â chymeriad yr AHNE.
- AAA2** Cadw cymeriad lleol, arwahanrwydd a phatrwm anheddiad pentrefi hanesyddol yn y Bryniau
- AAA3** Cynnwys tai fforddiadwy mewn cynlluniau tai newydd tra'n cadw'r angen am safonau uchaf dylunio a thirwedd.
- AAA4** Sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol ac aelodau yn gwbl ymwybodol o natur arbennig yr AHNE trwy gyfrwng eu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus.





Camau

- AAC1** Cael canllawiau dylunio ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau a thriniaeth ffiniau yn yr AHNE erbyn 2008.
- AAC2** Datblygu, ar y cyd gyda'r awdurdod cynllunio, cyfarwyddyd cynllunio ategol i annog datblygiad priodol yn yr AHNE
- AAC3** Cwblhau gwerthusiad cadwraeth ar gyfer yr 11 Ardal Cadwraeth Pentref erbyn 2008.
- AAC4** Creu 2 lwybr hunan-dywys y flwyddyn o gwmpas pentrefi gydag Ardaloedd Cadwraeth a fydd yn dathlu pensaernïaeth a hanes y pentrefi, a hefyd darprau cyfle 'Cerdded y Ffordd i Iechyd'.
- AAC5** Cynnal diwrnod datblygiad proffesiynol i Awdurdodau Cynllunio, datblygwyr a dylunwyr Sir y Fflint a Sir Ddinbych bob dwy flynedd.
- AAC6** Ymgymryd ag achwiliad o adeiladau cynhenid ar draws yr AHNE erbyn 2009.

Cynlluniau Cysylltiedig

CDU Sir y Fflint

CDU Sir Ddinbych



Cymunedau Cynaliadwy ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae angen i gymuned fod wrth graidd unrhyw weledigaeth. Yn wir, dywed Strategaeth Diwylliant Cymru LICC "Local Authorities....have a fundamental role....in shaping the quality of our natural and built heritage, in the protection of the landscape....in sustaining the Welsh language and a wide range of cultural activity in the community. They are uniquely placed to weld together community regeneration and cultural objectives."



Mae'r Cynllun Rheoli AHNE, tra nad yw wedi ei ffurfio yn bennaf i gefnogi holl agweddau bywyd cymunedol, yn medru cyfrannu tuag at gynnal cymunedau hyfyw, ffyniannus sy'n rhan hanfodol o AHNE Bryniau Clwyd. Mae'r ardal wastad wedi bod yn wlad 'ffiniol' gyda'r grib yn ffurfio ffin naturiol rhwyng cyfleoedd Cymru i'r gorllewin a thiroedd Lloegr i'r dwyrain. Mae o hyd yn fan cyfarfod i'r cymunedau Cymraeg a Saesneg ac mae cymysgedd diwylliannol hynod yma. Mae yna hefyd gysylltiad cryf rhwng Glannau Merswyr a'r AHNE sy'n cynyddu cymysgedd diwylliannol ymhellach. Daeth nifer fawr o Lerpwl yma yn ystod y rhyfel fel faciws, ac arhosodd llawer mwy yng Ngholomendy ar dripiâu ysgol neu fwynhau taith i Loggerheads gan ddefnyddio bws Crosville. Mae ymwelwyr o Loggerheads yn dal i ffurfio cyfran fwyaf ymwelwyr â Loggerheads a Moel Famau. Adlewyrchir y cysylltiad sydd gan bobl

Lerpwl gyda'r ardal yn y nifer cynyddol o drigolion yn y pentrefi dwyreiniol yn rhan ganolog Bryniau Clwyd sydd â chysylltiadau gyda Lerpwl.

Mae cymunedau gwledig angen cynnaladwyedd economaidd a chymdeithasol. Mae dau faes allweddol sydd angen cefnogaeth. Y cyntaf yw cyfleusterau lleol megis siopau, tafarndai, ysgolion a chlybiau ieuencid sy'n darparu gwasanaethau a chyflogaeth. Yr ail yw ymladd yn erbyn gwharddiad gwledig lle cyfyngir cyfleoedd gan faterion megis diweithdra, incwm isel, sgiliau gwael, tai gwael a chlodiant cyhoeddus gwael. Gall cymunedau hefyd fod ag anghenion penodol o ran "grwpiau arbennig gan gynnwys pobl llai abl, rhai hyn a grwpiau iau".

Mae hefyd yn bwysig bod cymunedau lleol yn teimlo eu bod yn rhan o'r AHNE a bod ganddynt ran i'w chwarae wrth lunio polisi a'r broses o gymryd penderfyniadau. Dylai cymunedau elwa yn uniongyrchol o fod o fewn yn yr AHNE trwy gyfrwng projectau a dargedwyd tuag at gymunedau a'u hardaloedd gan y Gronfa Datblygiad Cynaliadwy.

Mae gan Gymru ddiwylliant cyfoethog ac amrywiol ac mae llawer o'r trigolion yn cymryd balchder yn eu traddodiadau. Cynhelir Eisteddfodau ledled y wlad yn dathlu'r iaith Gymraeg, cerddoriaeth, barddoniaeth a diwylliant. Cynhelir yr Eisteddfod Ryngwladol ychydig filltiroedd i ffwrdd o'r AHNE yn Llangollen. Mae corau Cymreig a chorau eglwys yn adnabyddus ledled y byd.

Mae'r AHNE hefyd wedi rhoi ysbrydoliaeth i nifer o beintwyr ac awduron enwog megis Richard Wilson, 'tad peintiadau tirluniol', y mae ei luniau i'w gweld yn yr Oriel Genedlaethol y Llundain a'r bardd Gerald Manley Hopkins, a oedd yn crwydro brynau Tremeirchion ac ysgrifennu barddoniaeth am y golygfeydd hyfryd o'i gwmpas.

Gellir gweld diwylliant fel rhywbeth allweddol yn y jigso twristiaeth. Mae cyfoeth a ffyniant hanes, iaith, diwylliant a bywyd Cymreig yn asedion twristiaeth pendant.

Mae projectau celfyddyd cymunedol yn ffordd ragorol o gryfhau syniad cymuned o berchnogaeth a chyfranogiad mewn cefn gwlad a dathlu cyfoeth ddiwylliant. Yn ychwanegol at haeddiannau celfyddydol gall hefyd fod â gwerth ddehongliadol, addysgol neu chwarae, os caiff ei ddylunio yn ofalus.





Amcanion

- CCA1** Gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid eraill megis Cadwyn Clwyd a Chyswllt Amaeth i gefnogi busnesau presennol a galluogi datblygiad busnesau neu nwyddau newydd sy'n gydnaws gydag amcanion yr AHNE.
- CCA2** Cynnal canolfannau cymunedol presennol ac annog datblygiad cyfleusterau aml-bwrpas newydd, yn cyfateb i anghenion y gymuned..
- CCA3** Rhoi hygyrchedd i holl aelodau cymunedau gwledig i wasanaethau allweddol.
- CCA4** Hybu ymwybyddiaeth yr AHNE mewn cymunedau lleol.
- CCA5** Archwilio a chynyddu dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol mewn cymunedau yn yr AHNE erbyn 2006.
- CCA6** Ysgogi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn amrywiaeth ddiwylliannol yn yr AHNE.
- CCA7** Cynnwys cymunedau lleol a rhai sy'n ymweld yn y gwaith o reoli'r AHNE.



Camau

- CCC1** Cefnogi un project busnes y flwyddyn trwy CDC.
- CCC2** Hybu defnyddio nwyddau lleol ble bynnag y bo modd.
- CCC3** Parhau i ddiweddarau yn flynyddol ddatbas busnesau yn yr AHNE.
- CCC4** Sefydlu menter pentrefi a threfi bychain yn yr AHNE er mwyn cefnogi grwpiau busnes presennol a newydd yn yr AHNE erbyn 2008.
- CCC5** Ymgymryd ag archwiliad o'r cyfleusterau presennol ac asesu'r galw am gyfleusterau ychwanegol, gan ystyried hygyrchedd a datblygiad cymunedol, erbyn 2007.
- CCC6** Darparu cysylltiad cludiant cyhoeddus i'r holl bentrefi 7 diwrnod yr wythnos erbyn 2008.
- CCC7** Cysylltu gydag ysgolion yn yr AHNE trwy gyfrwng un project AHNE cyllid CDC y flwyddyn.
- CCC8** Cael artist preswyl ym mhob blwyddyn ariannol i ddathlu tirwedd yr AHNE.
- CCC9** Cael project celfyddydau cymunedol bob 3 blynedd, gan gychwyn yn 2006.
- CCC10** Codi proffil yr AHNE mewn 4 digwyddiad blynyddol lleol, gyda phresenoldeb y gwasanaeth AHNE.
- CCC11** Ymgymryd â mapio cymunedol i ganfod cymysgedd diwylliannol cymunedau yn yr AHNE ac ymgorffori hyn yn yr Arolwg Cynlluniau Datblygiad Unedol erbyn 2007.
- CCC12** Trefnu dyddiau atgofion i gysylltu gyda chymunedau a defnyddio eu cyfoeth o wybodaeth am yr ardal.
- CCC13** Rhoi cefnogaeth ariannol i ddigwyddiad clwb / clwb ieuenctid bob blwyddyn e.e. Rali Ffermwyr Ifanc.
- CCC14** Darparu partneriaeth gyda Menter Iaith Sir Ddinbych i hybu a dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant.
- SCA15** Datblygu cysylltiadau gydag ysgolion Cymraeg eu cyfrwng a grwpiau cymunedol yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint.
- SCA16** Cychwyn cyfres o ymarferion ymgynghorol ar Gynllun Rheoli'r AHNE a gwaith y Gwasanaeth Cefn Gwlad erbyn 2006.

Cynlluniau Cysylltiedig

Dewis a Dethol – Strategaeth Diwylliant a Hamdden Sir Ddinbych
Strategaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
CDU Sir y Fflint
CDU Sir Ddinbych
Strategaeth Twristiaeth Sir Ddinbych
Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint (pan gaiff ei drafftio)
Strategaeth Gymunedol Sir Ddinbych (pan gaiff ei drafftio)

